**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

**16 Hydref 2025**

**RHAN 1**

**Disgrifiad**

1. Mae Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (y Rheoliadau) yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i is-ddeddfwriaeth sy'n gweithredu Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (y Ddeddf).

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud cywiriadau i'r rheoliadau canlynol mewn ymateb i bwyntiau adrodd a godwyd gan y Pwyllgor yn eu hadroddiadau:

   - Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025 – SL(6)625[1]
   - Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru) 2025 – SL(6)624[2]
   - Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Archwilio a Phenderfynu) (Gweithdrefn) (Cymru) 2025[3]

**Cefndir Deddfwriaethol**

3. Mae'r rheoliadau yn defnyddio'r un pwerau â'r rheoliadau sy'n cael eu diwygio.

4. Dibynnir ar y pwerau yn adran 30(2) o'r Ddeddf i wneud diwygiadau i reoliadau sy'n ymwneud ag ymgynghori cyn ymgeisio.

5. Dibynnir ar y pwerau yn adran 32(4) a (5) o'r Ddeddf i wneud diwygiadau i'r rheoliadau sy'n ymwneud â gwneud cais am gydsyniad seilwaith.

6. Dibynnir ar y pwerau yn adran 35(1) o'r Ddeddf i wneud diwygiadau i benderfyniadau sy'n ymwneud â chyhoeddi cais am gydsyniad seilwaith.

7. Dibynnir ar y pŵer yn adran 36(4)(b) o'r Ddeddf i wneud diwygiadau i'r rheoliadau sy'n ymwneud â ffurf a chynnwys adroddiad ar yr effaith leol.

8. Dibynnir ar y pwerau yn adrannau 38(2), 39 a 72(2)(d)(i) o'r Ddeddf i wneud diwygiadau i'r rheoliadau sy'n ymwneud â chaffael tir yn orfodol.

9. Dibynnir ar y pwerau yn adran 40(5), 44 a 48(6) i wneud diwygiadau i'r rheoliadau sy'n ymwneud â phenodi Awdurdod Archwilio a'r weithdrefn archwilio.

---

1 https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=46112
2 https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=46108
3 https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=46106

10. Dibynnir ar y pwerau yn adran 60 o'r Ddeddf i wneud diwygiadau i'r rheoliadau sy'n ymwneud â hysbysu am benderfyniad cydsyniad seilwaith a'r weithdrefn pan fo'r cydsyniad a roddwyd yn wahanol i'r hyn y gwnaed cais amdano.

11. Dibynnir ar y pŵer yn adran 129(4)(b) i wneud diwygiad i'r rheoliadau sy'n ymwneud â gofyniad i ddarparu ymateb o sylwedd i ymgynghoriad.

12. Dibynnir ar y pwerau yn adran 140 o'r Ddeddf fel terfyn ar y pwerau gwneud rheoliadau a nodir uchod.

13. Dibynnir ar y pŵer yn adran 141(2) o'r Ddeddf i alluogi'r rheoliadau i wneud diwygiad at ddibenion gwahanol.

14. Yn unol ag adran 141(5) o Ddeddf 2024, mae'r offeryn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol (h.y. yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru).

**Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael**

15. Mae'r Ddeddf yn deddfu ar gyfer un gyfundrefn gydsynio unedig ar gyfer prosiectau ynni a seilwaith mawr yng Nghymru, ar y tir ac ar y môr. Mae'r Rheoliadau yn gwneud mân ddiwygiadau i'r pecyn o is-ddeddfwriaeth sy'n gweithredu'r broses gydsynio newydd. Ni wneir unrhyw newid o ran polisi drwy’r rheoliadau hyn.

16. Maent yn gwneud mân ddiwygiadau i'r is-ddeddfwriaeth sy'n gweithredu'r Ddeddf. Y perygl o beidio â gwneud y Rheoliadau hyn yw na fydd y broses cydsynio seilwaith yn gweithredu'n effeithiol ac na fyddai'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn gyfwerth.

17. I weithredu'r Ddeddf yn llwyr, mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a’r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025. Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru) 2025. Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Archwilio a Phenderfynu) (Gweithdrefn) (Cymru) 2025.

**Ymgynghori**

18. Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi’i gynnal ar y rheoliadau gan mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol y maent yn eu gwneud. Rhwng 19 Medi 2024 a 13 Rhagfyr 2024, ymgynghorwyd ar roi’r Ddeddf ar waith. Mae'r ddogfen ymgynghori a'r crynodeb o ymatebion i'w gweld drwy’r ddolen hon:

    Rhoi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar waith | LLYW.CYMRU

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

19. Ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn, am eu bod yn gwneud diwygiadau canlyniadol a thechnegol i ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, ac nad ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol na'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng Nghod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

20. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y pecyn cyfan o is-ddeddfwriaeth i weithredu'r Ddeddf i'w weld yma[4]:

4 https://dogfennauaosodwyd.senedd.cymru/sub-ld17231-em-cy.pdf